



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Derfynol 2019-20

Cyllideb i greu Cymru well

Rhagfyr 2018

llyw.cymru

Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad	2
Pennod 2: Cyllideb yr Hydref y DU	5
Pennod 3: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol.....	7
Pennod 4: Aseiad o effaith newidiadau rhwng y Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol.....	11
Pennod 5: Dyraniadau Cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-2015	15
Pennod 6: Cynlluniau gwario'r Prif Grwpiau Gwariant	27
Atodiad A - Cysoni'r gyllideb weinyddol a dyraniad yr adnoddau yng nghynnig y Gyllideb flynyddol	35
Atodiad B - Geirfa.....	36

Pennod 1: Cyflwyniad

Trosolwg

- 1.1 Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Gyllideb derfynol ar gyfer 2019-20, yn unol â Rheol Sefydlog 20.
- 1.2 Dyma flwyddyn olaf setliad Adolygiad o Wariant presennol Llywodraeth y DU, a bennodd gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 i 2019-20 a'r gyllideb gyfalaf tan 2020-21. Hon fydd y Gyllideb olaf i gael ei gosod gan Lywodraeth Cymru cyn i'r DU ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019.
- 1.3 Mae'r Gyllideb derfynol a gyhoeddir heddiw'n nodi ein cynlluniau gwario ar gyfer 2019-20, ynghyd â chynlluniau cyfalaf tan 2020-21.
- 1.4 Mae'n adlewyrchu newidiadau i'r Gyllideb ddrafft amlinellol, a gyhoeddwyd ar 2 Hydref a'r cynlluniau gwario manwl a gyhoeddwyd ar 23 Hydref.
- 1.5 Hon yw'r ail flwyddyn yr ydym wedi cyhoeddi cynigion y Gyllideb ddrafft mewn dau gam, yn unol â phrotocol y gyllideb y cytunwyd arno â'r Pwyllgor Cyllid. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys gwybodaeth am flociau adeiladu Cyllideb Cymru – o ble y mae'r arian yn dod, gan gynnwys trethi, benthyca, a'r grant bloc – ynghyd â'r rhagolygon economaidd ehangach i Gymru; rhagolygon trethi a sut y caiff cyllid ei ddyrannu i bob portffolio ar lefel Prif Grŵp Gwariant. Roedd yr ail gam yn dangos cynlluniau gwario manylach ar lefel pob un o bortffolios y Llywodraeth.

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

- 1.6 Mae'r gwaith craffu ar gyllideb 2019-20 wedi cael ei strwythuro yn yr un ffordd â'r llynedd. Roedd craffu cam un gan y Pwyllgor Cyllid yn archwilio prif flociau adeiladu cyllideb Llywodraeth Cymru – o ble y mae ein cyllid yn dod, gan gynnwys benthyca a'n pwerau trethu newydd – wedi hynny cafwyd ystyriaeth fanylach ar gynlluniau gwario adrannol gan bwyllgorau pwnc y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod cam 2.
- 1.7 Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cyfraniad pwysig y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau polisi'r Cynulliad Cenedlaethol wrth graffu'n adeiladol ar gynigion y gyllideb. Rydym wedi edrych ar ffyrdd o wella'r ffordd y mae ein cynlluniau gwario'n cael eu cyflwyno a darparu mwy o fanylion i ategu craffu ystyrion ar ein cynlluniau. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Cyllid wedi cydnabod bod dogfennau'r gyllideb yn cynnwys nifer o newidiadau mewn ymateb i'r dystiolaeth a'r adborth o waith craffu y llynedd. Erbyn hyn mae'r dogfennau'n rhoi mwy o bwyslais ar *Ffyniant i Bawb* a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cydweddu â hwy. Byddwn yn anelu at adeiladu ar hyn yn y blynyddoedd i ddod.

- 1.8 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cnoi cil ar yr argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol a byddwn yn ymateb i'r rhain maes o law.

Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

- 1.9 Rydym wedi croesawu'r ddadl adeiladol yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ac rydym wedi ystyried yr holl adborth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys gan ein partneriaid cyflawni.
- 1.10 Un o'r prif ystyriaethau ers inni gyhoeddi Cyllideb ddrafft 2019-20 fu Cyllideb yr Hydref y DU a gyhoeddwyd ar 29 Hydref a'r goblygiadau ar gyfer ein Cyllideb derfynol 2019-20. Pan gyhoeddwyd ein cynigion drafft, gwnaethom ymrwymiad i wneud llywodraeth leol yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer cyllid ychwanegol yn dilyn Cyllideb yr Hydref y DU. Ar 20 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o gynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol. Mae'r pecyn hwn, sy'n cwmpasu rhwng 2018-19 a 2020-21, yn cael ei adlewyrchu yng nghyllideb derfynol ble mae'n berthnasol i 2019-20 a 2020-21.
- 1.11 Yn ogystal â'r cynigion ar gyfer llywodraeth leol, rydym yn gwneud nifer o ddyraniadau referiw a chyfalaf eraill yn y Gyllideb derfynol. Nodir manylion pellach am y newidiadau hyn ym mhennod 3.

Ymgysylltu ar y Gyllideb

- 1.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal sesiynau ymgysylltu ar y Gyllideb i godi ymwybyddiaeth o broses y gyllideb a'i blociau adeiladu â'r cyhoedd a ledled Cymru a bydd yn parhau i wneud hyn. Rydym yn croesawu cyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu.
- 1.13 Datblygwyd efelychydd y Gyllideb fel rhan o'n cytundeb yn 2016 ar y Gyllideb â Phlaid Cymru. Roeddem am ymchwilio i ffyrdd o gynnwys y cyhoedd ym mhroses y Gyllideb a chynyddu lefel y ddealltwriaeth ynghylch o ble y mae cyllideb Cymru'n dod a sut y mae'n cael ei gwario. Yn ystod Cyllideb y llynedd, rhoes yr efelychydd gyfle i bobl gynnig newidiadau i'r ffordd y mae'r gyllideb yn cael ei dyrannu. Roedd yr ymatebion oddi wrth y cyhoedd ar y cyfan yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- 1.14 Pan gyhoeddwyd yr efelychydd ochr yn ochr â'r gyllideb fanwl eleni, roedd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am broses y gyllideb a'r bwriad oedd iddo fod yn fwy o arf addysgol. Roedd hyn yn adlewyrchu adborth o'r sesiynau ymgysylltu ar y gyllideb a gynhaliwyd y llynedd, a bwysleisiodd yr angen i bobl ddeall proses y gyllideb yn y lle cyntaf. Un o'r profiadau dysgu allweddol o'r ymgysylltu hyd yn hyn oedd bod rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o gynnwys pobl ym mhroses y gyllideb os ydym yn awyddus o'u cynnwys yn y broses honno. Rydym yn ystyried sut y gallwn wneud hyn i gefnogi'r Gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

- 1.15 Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio cynyddu ei chynulleidfa ar gyfer ymgysylltu ynghylch materion cyllidebol a chyllidol gan ddefnyddio cyfraddau treth incwm Cymru, a gyflwynir o Ebrill 2019 ymlaen, fel catalydd. Mae ymgyrch #FyNhrethFyNghymru wedi cael ei datblygu i ddangos y cyswllt rhwng yr arian a enillir ac a godir yng Nghymru drwy drethi Cymru, a sut y mae'n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Byddwn yn anelu at ehangu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol trwy sianeli Trysorlys Cymru.

Ailddatgan y Prif Grwpiau Gwariant (MEG)

- 1.16 Nid yw tablau BEL y Gyllideb Derfynol a gyhoeddir ar 18 Rhagfyr yn adlewyrchu portffolios Gweinidogol newydd a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr. Fe fyddwn yn cyhoeddi tablau BEL newydd erbyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ar 15 Ionawr, a byddant yn rheoleiddio'r newidiadau i'r strwythurau newydd.

Pennod 2: Cyllideb yr Hydref y DU

Trosolwg

2.1 Ar 29 Hydref, cyflwynodd Canghellor y Trysorlys Gyllideb yr Hydref y DU. O ganlyniad i benderfyniadau gwario Llywodraeth y DU, cafodd Cymru symiau canlyniadol Barnett o £554.3m rhwng 2018-19 a 2020-21. Mae hyn yn cynnwys refeniw o £485.9m, cyfalaf o £59.9m a chyfalaf trafodiadau ariannol o £8.5m.

Effaith ar Gyllideb Cymru

2.2 Er ei bod yn ymddangos y bydd ein cyllideb yn cynyddu £554.3m dros dair blynedd, mae hyn yn cynnwys y cyllid canlyniadol i'r GIG, a gyhoeddwyd ym Mehefin ac sydd eisoes wedi'i ymgorffori yng nghynigion y gyllideb a gyhoeddwyd ym mis Hydref.

2.3 Mae cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru'n amlinellu'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud ar gyfer 2019-20 a 2020-21 o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol a gafwyd yng Nghyllideb yr Hydref y DU. Nodir y rhain ym mhennod tri.

Effaith ar ragolygon trethi Cymreig

2.4 Roedd Cyllideb y DU'n cynnwys nifer o gyhoeddiadau polisi yn ymwneud â'r trethi sydd wedi'u datganoli i Gymru ond ddim rhai sydd â goblygiadau sylweddol ar gyfer cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru.

2.5 Mae'r prif fesur i gynyddu lwfans personol treth incwm i £12,500 yn 2019-20 yn lleihau rhyw £40m ar y derbyniadau a ddisgwylir o gyfraddau treth incwm Cymru. Er hynny, bydd yr addasiad i'r grant bloc yn y flwyddyn gyntaf yn symud yn unol â'r rhagolygon wedi'i leihau ac ni fydd unrhyw effaith gyllidebol net.

2.6 Cafwyd mân gyhoeddiadau hefyd ynghylch treth dir y dreth stamp ond mae i'r rhain effeithiau cyfyngedig o ran refeniw ac nid ydynt yn gofyn am unrhyw ymateb polisi ar unwaith yng Nghymru.

2.7 Cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ragolygon refeniw diwygiedig ar gyfer y trethi datganoledig ac ar gyfer trethi cyfatebol Llywodraeth y DU, a ddefnyddir i bennu'r addasiadau i'r grant bloc. At ei gilydd, mae'r rhain yn arwain at fân newidiadau yn unig i'r addasiadau a gafodd eu hymgorffori yn y gyllideb ddrafft. Mae rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n debyg i'r rhai yn y Gyllideb Ddrafft.

2.8 Mae ein rhagolygon ein hunain ar gyfer refeniw trethi wedi cael eu diwygio yng ngoleuni'r rhagolygon economaidd diweddaraf a'r wybodaeth alldro

ddiweddaraf. Cafwyd diwygiad bach ar i lawr i LTT yn 2018-20 a diwygiad bach ar i fyny i LDT. Mae Prifysgol Bangor wedi craffu ar y rhagolygon hyn i gynnig sicrwydd ac mae wedi cyhoeddi adroddiad cryno ochr yn ochr â'r Gyllideb derfynol hon.

Pennod 3: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

Trosolwg

- 3.1** Darperir trosolwg o'r newidiadau a wnaed rhwng cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol yn y bennod hon.

Newidiadau i drethi

- 3.2** Nodwyd bwriad Llywodraeth Cymru i bennu pob un o'r cyfraddau treth incwm Cymru'n 10c yn y Gyllideb ddrafft amlinellol ar 2 Hydref.
- 3.3** Yng Nghyllideb yr Hydref y DU ar 29 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r lwfans personol ar gyfer treth incwm yn cynyddu i £12,500 yn 2019-20 o £11,850 yn 2018-19. Roedd y cynnydd yn fwy nag y rhagdybiwyd yn y rhagolwg ynghylch y Gyllideb ddrafft ac mae ganddo effaith negyddol ar y refeniw sy'n dod o gyfraddau treth incwm Cymru. Mae'r rhagolygon ar gyfer CTIC yn 2019-20 wedi gostwng o £2,099m adeg y Gyllideb Derfynol amlinellol i £2,059m yn y Gyllideb Derfynol, yn bennaf oherwydd y newid i'r lwfans personol. Er hynny caiff yr addasiad i'r grant bloc ar gyfer treth incwm ei leihau yn yr un ffordd gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y trethi Cymreig newydd ac ni fydd unrhyw effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2019-20.
- 3.4** Pennwyd yn y Gyllideb ddrafft amlinellol na fyddai unrhyw newidiadau i'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn 2019-20. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yng Nghyllideb y DU ar gyfer yr Hydref y byddai'n cyhoeddi ymgynghoriad yn Ionawr 2019 ar ordal o 1% i dreth dir y dreth stamp ar gyfer y rhai nad ydynt yn breswylwyr sy'n prynu eiddo preswyl yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro'r ymgynghoriad hwn ac yn ystyried a oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y dreth trafodiadau tir. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd estyniad i'w rhyddhad ar gyfer prynwyr tro cyntaf i gwmpasu pryniadau rhanberchnogaeth. Pennodd Llywodraeth Cymru'r trothwy ar gyfer y dreth trafodiadau tir yn £180,000 yn 2018-19 ar gyfer pob prynwyr, gan gynnwys pryniadau rhanberchnogaeth, felly mae'r unigolion hyn eisoes yn elwa ar dreth trafodiadau tir wedi'i lleihau.
- 3.5** Nodwyd y cyfraddau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi yn 2019-20 yn y Gyllideb ddrafft amlinellol, gan gynyddu yn unol â'r mynegai prisiau manwerthu. Fel y cyhoeddwyd gynt, cafodd y rhain eu cynyddu yn unol â'r cyfraddau a gyhoeddwyd ar gyfer y dreth dirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau yng Nghyllideb yr Hydref y DU sydd â goblygiadau ar gyfer cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi. Mae cyfraddau newydd y dreth gwarediadau tirlenwi bellach wedi'u gosod ac fe gaiff y rhain eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol yn Ionawr 2019.

Newidiadau gwario

- 3.6 Yn dilyn Cyllideb yr Hydref y DU, bu Llywodraeth Cymru'n penderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol sydd ar gael dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau.

Llywodraeth Leol

- 3.7 Bu llywodraeth leol wrth wraidd ein hystyriaethau wrth inni weithio ar fanylion Cyllideb yr Hydref y DU dros yr ychydig wythnosau diwethaf.
- 3.8 Wrth baratoi'r Gyllideb ddrafft 2019-20, cydnabuwyd y pwysau gwirioneddol y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu a buom yn gadarn yn ein hymrwymiad i wneud ein gorau glas i'w hamddiffyn rhag effeithiau gwaethaf polisi cyni niweidiol Llywodraeth y DU wrth inni gychwyn ar nawfed flwyddyn cyni.
- 3.9 Pan basiodd y Cynulliad Cenedlaethol y Gyllideb Derfynol 2018-19, ym mis Ionawr 2018, roedd yr awdurdodau lleol yn wynebu gostyngiad o 1% yn y grant cynnal refeniw (RSG) ar gyfer 2019-20 – roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad arian parod o £43m.
- 3.10 Oherwydd y penderfyniadau a wnaethom wrth baratoi'r Gyllideb Ddrafft 2019-20 gostyngodd y toriad hwnnw mewn cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw i lai na £15m (sy'n cyfateb i 0.3% yn y Grant Cynnal Refeniw). Rhoesom derfyn isaf yn ei le i sicrhau na fyddai unrhyw awdurdod yn wynebu gostyngiad mewn cyllid o fwy na 1% dros y flwyddyn flaenorol. Darparodd y Gyllideb ddrafft refeniw ychwanegol o £84m mewn grantiau arbennig a ffrydiau cyllido eraill i lywodraeth leol y tu allan i'r Grant Cynnal Refeniw.
- 3.11 Roedd hwn yn setliad heriol at ei gilydd i'r awdurdodau lleol ac fe wnaethom ymrwymiad y byddai llywodraeth leol yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer cyllid ychwanegol yn dilyn Cyllideb y DU.
- 3.12 O ganlyniad, ar 20 Tachwedd, bu modd inni gyhoeddi pecyn o gynigion ariannu ychwanegol gwerth cyfanswm o £141.5m dros dair blynedd (2018-21) ar gyfer llywodraeth leol. Cynhwysir y pecyn hwn yn y Gyllideb Derfynol 2019-20 ble mae'n berthnasol i 2019-20 a 2020-21 ac mae'n cynnwys:
- Refeniw ychwanegol o £13m yn 2019-20 i roi setliad ariannol gwastad i lywodraeth leol (MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus).
 - Swm ychwanegol o £1.2m yn 2019-20 i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod lleol yn wynebu gostyngiad o fwy na 0.5% (MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus).
 - Swm pellach o £7.5m yn 2019-20 i dalu pwysau cost sy'n gysylltiedig â rhoi dyfarniad cyflog athrawon ar waith (MEG Addysg).

- £2.3m yn 2019-20 ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant i helpu i atal plant rhag cael eu cymryd i mewn i ofal (MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol).
- Cyllid cyfalaf ychwanegol o £30m yn 2019-20 a £20m yn 2020-21 ar gyfer cronfa cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol (MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus) fel rhan o becyn gwerth £100m dros dair blynedd

3.13 Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein bod yn bwriadu cymhwyso'r swm canlyniadol llawn a geir o ganlyniad i wario ychwanegol yn Lloegr ar gyfer rhyddhad ardrethi i gefnogi busnesau yng Nghymru y flwyddyn nesaf:

- Swm ychwanegol o £23.6m i wella ein cynllun rhyddhad ardrethi ar gyfer y stryd fawr gyda £2.4m i'r awdurdodau lleol i ddarparu rhyddhad ardrethi disgresiynol (MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus).

Ffyniant i Bawb – meysydd blaenoriaeth

3.14 Wrth wneud dyraniadau newydd o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol a gafwyd yn dilyn Cyllideb y DU ar gyfer yr Hydref, rydym wedi ystyried a allwn roi unrhyw gymorth ychwanegol ar gyfer ein blaenoriaethau strategol.

3.15 Yn *Ffyniant i Bawb*, y chwe maes sy'n cael blaenoriaeth yw - y blynyddoedd cynnar; tai; gofal cymdeithasol; gwell iechyd meddwl; sgiliau a chyflogadwyedd a datgarboneiddio. Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r gyllideb derfynol ac fe'u crynhoir isod.

Y Blynyddoedd Cynnar

- Refeniw ychwanegol o 0.4m yn 2019-20 i ehangu'r cynllun Bwyd a Hwyl sy'n cefnogi plant yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn ystod gwyliau ysgol (MEG Addysg).

Gofal Cymdeithasol

- Dyraniad refeniw o £7m yn 2019-20 i ddarparu'r trydydd cynnydd i'r terfyn cyfalaf, gan ei godi i £50,000. Mae hyn yn golygu y bydd pobl yn gallu cadw mwy o'u cynilion cyn gorfod talu am ofal preswyl (MEG Llywodraeth Leol Gwasanaethau Cyhoeddus).
- Yn dilyn Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn perthynas â'r gyllideb sydd wedi'i dyrannu iddo, bydd codiad cylchol o £1.04m i gyllideb CAF/CASS Cymru o 2019-20 i ddarparu cyllid ar gyfer y swyddi sefydledig yn y sefydliad. Caiff hyn ei reoli o fewn MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Sgiliau a Chyflogadwyedd

- Refeniw ychwanegol o £6.8m yn 2019-20 i gefnogi 100,000 o brentisiaethau pob oed yn ystod tymor y llywodraeth hon (MEG Addysg).

- Refeniw ychwanegol o £4.771m yn 2019-20 i gefnogi setliad tâl Addysg Bellach (MEG Addysg).
- Refeniw ychwanegol o £1.6m yn 2019-20 i ymestyn ymhellach Cynllun Mynediad PDG (MEG Addysg).
- Refeniw ychwanegol o £0.5m yn 2019-20 i wella cymorth ar gyfer gweithgareddau cerddoriaeth i bobl ifanc (MEG Addysg).
- Cymorth i wella neuaddau pentref a neuaddau lles glowyr gyda refeniw o £0.06m yn 2019-20 trwy Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus).

Datgarboneiddio

- Refeniw ychwanegol o £0.8m a chyfalaf o £3m yn 2019-20 ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (MEG Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig).
- Refeniw ychwanegol o £0.9m yn 2019-20 i gefnogi lleihau gwastraff bwyd (MEG Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig).
- Refeniw ychwanegol o £41k a chyfalaf o £171k yn 2019-20 ac wedi hynny cyfalaf o £171k yn 2020-21 i gefnogi plannu coed trwy Cyfoeth Naturiol Cymru (MEG Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig).

Cytundeb y Gyllideb

- 3.16** Mae trafodaethau â Phlaid Cymru wedi parhau, gan adeiladu ar gytundeb y gyllideb a wnaed y llynedd ac mae dyraniadau ychwanegol yn cael eu gwneud:
- Cyfalaf ychwanegol o £5m yn 2019-20, yn darparu cyfanswm o £10m, i fwrw ymlaen â gwaith sy'n deillio o astudiaethau ymarferoldeb i oriel gelf genedlaethol ac amgueddfa bêl-droed genedlaethol (MEG yr Economi a Thrafnidiaeth).

Newid Technegol

- 3.17** Mae un newid technegol wedi'i wneud i'r Gyllideb derfynol:

Yn dilyn cyhoeddi a chraffu ar gyllidebau'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol - sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru - rydym wedi cael amcangyfrifon wedi'u diweddarau ar gyfer 2019-20. O ganlyniad, mae cynnydd ymylol o £551k i'r cyllid y mae ei angen yn 2019-20. Caiff yr addasiad hwn ei reoli trwy gronfeydd wrth gefn.

Pennod 4: Asesiad o effaith newidiadau rhwng y Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol

Trosolwg

- 4.1 Nododd Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Gyllideb ddrafft amlinellol, effaith y penderfyniadau lefel uchel. Cafodd effaith y penderfyniadau gwario manwl ar lefel portffolio ei hasesu fel rhan o'r gyllideb ddrafft fanwl gan Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion unigol ei hasesu a'i chyfuno mewn SIIA pellach.
- 4.2 Mae ein rhaglen lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen* a'r strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, yn sail i'r Gyllideb ddrafft. Mae'r dyraniadau olynol a wnaed yn sgil cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn parhau i gefnogi cyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru a'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r cynlluniau gwario hyn yn parhau i adlewyrchu'r pwyslais yr ydym yn ei roi ar drechu anfantais economaidd-gymdeithasol; hybu hawliau plant a'r Gymraeg a hybu cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy drwy wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- 4.3 Mae'r asesiad hwn yn darparu crynodeb o effaith y newidiadau rhwng y Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol.

Ffyniannus a Diogel

- 4.4 Byddwn yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer prentisiaethau pob oed sef referniw o £6.8m yn 2019-20, a fydd yn ein galluogi i gefnogi ymhellach ein targed o 100,000 o brentisiaethau pob oed yn ystod tymor y Cynulliad hwn.
- 4.5 Mae cyflogaeth yn gysylltiedig â risg is o dlodi dwys a pharhaus ac mae iddi rôl mewn llawer o agweddau ar lesiant, nid yn unig fel ffynhonnell o incwm ond hefyd wrth hybu rhyngweithio cymdeithasol ac iechyd meddyliol a chorfforol. Mae rhai pobl ifanc, gan gynnwys y rhai o gymunedau difreintiedig a grwpiau BME, yn fwy tebygol o brofi tlodi os nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- 4.6 Yng ngoleuni'r pwysau ar y stryd fawr sydd wedi bod yn destun cryn gyhoeddusrwydd, caiff £26m ei ddyrannu i gefnogi busnesau â'u hardrethi annomestig. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi busnesau yng Nghymru a helpu i gynnal eu cyfraniadau at economi Cymru, er enghraifft, trwy ddarparu cyflogaeth hanfodol.

Iach ac Egniol

- 4.7 Gall diffyg gweithgareddau cyfoethogi am ddim a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer chwaraeon grŵp gael effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddyliol a chorfforol plentyn. Cynlluniwyd Bwyd a Hwyl i gyfoethogi profiad plant yn

ystod gwyliau ysgol gydag ysgolion sy'n cymryd rhan yn rhoi dau bryd bwyd iach i'r plant yn ogystal ag ystod eang o addysg am fwyd, gweithgarwch corfforol a sesiynau cael hwyl yn ystod toriad yr haf tra'n manteisio ar gyfleusterau ysgolion lleol. I rai o'n plant ifanc gall gwyliau'r haf fod yn amser anodd. Mewn rhai achosion, gall plant sy'n elwa ar frecwast a chinio am ddim yn yr ysgol golli'r prydau hyn a dioddef newyn pan fydd eu hysgol yn cau am y gwyliau.

- 4.8 Mae gan ofal cymdeithasol tosturiol ac urddasol rôl bwysig wrth greu a chynnal cymunedau cryf, helpu pobl i aros yn iach a byw'n annibynnol yn hwy. Rydym wedi cymryd camau i amddiffyn iechyd a gofal cymdeithasol yn eu crynswth, cydnabod pwysigrwydd gofal cymdeithasol wrth wella lechyd a lles i unigolion a theuluoedd.
- 4.9 Mae'r dyraniad ar gyfer gofal cymdeithasol plant fel rhan o becyn ariannu llywodraeth leol yn anelu at atal plant rhag cael eu cymryd i mewn i ofal. Mae deilliannau addysgol plant sy'n cael eu cymryd i mewn i ofal yn waeth, ar gyfartaledd, gyda'r bwch yn ehangu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.
- 4.10 Mae CAFCASS Cymru'n darparu gwasanaethau statudol a arweinir gan y galw o dan Ddeddf Plant 2004 ac mae wedi ymateb i gynnydd sylweddol a pharhaus yn y galw am ei wasanaethau ers 2014-15. Mewn ymateb i'r cynnydd hwn yn y galw bydd y £1.04m ychwanegol yn galluogi CAFCASS Cymru i ariannu holl swyddi Cynghorydd Llys Teulu presennol o fewn y strwythur, gan sicrhau bod y cyfrif sylfaenol o swyddi'r sefydliad yn aros o fewn y terfyn y cytunwyd arno o 225 o swyddi.
- 4.11 Bydd codi'r terfyn cyfalaf ar gyfer gofal preswyl a ddaw i rym yn Ebrill 2019, yn golygu y bydd pobl sydd wedi gweithio'n galed drwy gydol eu bywydau'n gallu cadw mwy o'u cynilion a'u trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Bydd ffioedd preswyl felly'n cael effaith is ar ansawdd bywyd y rhai y mae arnynt angen gofal preswyl yn nes ymlaen mewn bywyd. Bydd darparu cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol i gefnogi costau hyn yn golygu nad oes rhaid i'r awdurdodau lleol dalu'r gost hon trwy dorri gwasanaethau rheng flaen.

Uchelgais a Dysgu

- 4.12 Gall cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon gael effaith gadarnhaol ar les meddyliol ac iechyd corfforol, ond hefyd o safbwynt gwella cysylltiadau cymdeithasol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae felly'n cefnogi ystod eang o nodau llesiant.
- 4.13 Mae cefnogi gweithgareddau cerddoriaeth i bobl ifanc, o'r dosbarth i ensembles cenedlaethol yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Gan adeiladu ar y cyllid y cytunwyd arno â Phlaid Cymru fel rhan o'r cytundeb dwy flynedd ar y gyllideb, caiff dyraniad ychwanegol o £0.5m yn 2019-20 ei ddarparu i wella'r ddarpariaeth ymhellach.
- 4.14 Gweithlu'r sector cyhoeddus yw ein hased cyhoeddus mwyaf. O ganlyniad i'r mesurau diweddar i ddileu'r cap tâl yng Nghymru, mae pwysau'n ymddangos,

gan gynnwys yn y sector addysg bellach (AB). Mae cyllid refeniw ychwanegol o £4.771m yn 2019-20 yn cael ei roi i gefnogi setliad tal AB y flwyddyn nesaf.

- 4.15 Mae gan AB effaith gadarnhaol ar bobl ifanc gan mai lefelau sgiliau a chymwysterau sy'n dylanwadu fwyaf ar siawns pobl i fod mewn gwaith a lefelau eu hincwm. Mae'r sector addysg bellach yn allweddol o ran chwalu'r cylch cyrhaeddiad isel sy'n parhau o'r naill genhedlaeth i'r llall mewn ardaloedd difreintiedig.
- 4.16 Mae Cynllun Mynediad PDG yn helpu i dalu'r costau bob dydd sy'n gysylltiedig â'r ysgol - cost gwisg ysgol, dillad chwaraeon yn yr ysgol yn ogystal â gwisg ysgol ar gyfer gweithgareddau ehangach megis sgowtiaid, tywyswyr a chwaraeon y tu allan i'r ysgol. Mae hefyd yn talu am offer ar gyfer gweithgareddau o fewn y cwricwlwm, megis dylunio a thechnoleg. Mae rhieni'n gallu cael mynediad at gyllid ar gyfer teithiau y tu all i oriau ysgol, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored. Oherwydd yr estyniad i'r cynllun bydd y cyllid ar gael i ragor o deuluoedd ar adegau amlach yng ngyrfa ysgol plentyn.
- 4.17 Mae cyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru'n newid o bwys y bwriedir iddo baratoi ein pobl am fydd y dyfodol. Mae ariannu cymorth penodol i athrawon i sicrhau eu bod yn barod am gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn rhan hanfodol o hyn. Ein hathrawon yw'r sbardun mwyaf ar gyfer newid a gwelliant yn y dosbarth. Bydd £15m yn ychwanegol, dros ddwy flynedd, a ddarperir fel rhan o becyn llywodraeth leol, yn helpu'r awdurdodau lleol i dalu pwysau cost sy'n gysylltiedig â rhoi dyfarniad cyflog athrawon ar waith.

Unedig a Chysylltiedig

- 4.18 Wrth baratoi cyllideb ddrafft 2019-20, cydnabu Llywodraeth Cymru'r pwysau gwirioneddol yr oedd yr awdurdodau lleol yn eu hwynebu ac ymrwymo i wneud ei gorau glas i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen rhag effeithiau gwaethaf polisi cyni niweidiol Llywodraeth y DU.
- 4.19 Roedd Cyllideb ddrafft 2019-20 yn setliad heriol at ei gilydd i'r awdurdodau lleol ac fe gytunodd Llywodraeth Cymru y byddai llywodraeth leol yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer cyllid ychwanegol yn dilyn Cyllideb yr Hydref y DU.
- 4.20 Mae llywodraeth leol ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ymateb i anghenion lleol a helpu i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ochr yn ochr ag iechyd a gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'r awdurdodau lleol yn llywio ac yn darparu gwasanaethau lleol, gyda chanolbwynt ar anghenion pobl ar bob adeg yn eu bywydau. Mae buddsoddi yn y gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt sy'n atal problemau rhag codi neu waethygu yn rhan sylfaenol o'n nod ar gyfer llywodraeth leol.
- 4.21 Wedi gweithio trwy fanylion Cyllideb yr Hydref y DU ar ein cynigion gwario, caiff y pecyn canlynol o fesurau ychwanegol ei gynnwys yn y Gyllideb derfynol ar gyfer 2019-20 a 2020-21:

- Refeniw ychwanegol o £13m yn 2019-20 yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) i roi setliad ariannol gwastad i lywodraeth leol.
- Darparu £1.2m yn ychwanegol yn 2019-20 i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod lleol yn wynebu gostyngiad mewn cyllid o fwy na 0.5%;
- Dyrannu £2.3m yn 2019-20 ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant;
- £7.5m yn 2019-20 i helpu'r awdurdodau lleol i dalu pwysau cost sy'n gysylltiedig â rhoi dyfarniad cyflog athrawon ar waith; a
- Cynnydd cyfalaf o £50m dros ddwy flynedd (£30m yn 2019-20 a £20m yn 2020-21) ar gyfer cronfa cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol, fel rhan o becyn o £100m dros dair flynedd.

- 4.22** Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ac yn dathlu'r rôl gadarnhaol y gall y celfyddydau a diwylliant ei chwarae wrth drechu tlodi ac anghydraddoldeb, cefnogi twristiaeth a gwella ein henw rhyngwladol. Mae tirwedd naturiol Cymru yn rhan bwysig o ddiwylliant a threftadaeth y wlad, yn ogystal â bod yn bwysig i'r diwydiant twristiaeth, sydd yn ei dro'n cefnogi twf economaidd.
- 4.23** Yn dilyn trafodaethau parhaus â Phlaid Cymru caiff cyfalaf ychwanegol o £5m ei ddarparu yn 2019-20 i fwrw ymlaen â chanlyniadau'r astudiaethau ymarferoldeb ynghylch oriel gelf genedlaethol ac amgueddfa bêl-droed genedlaethol.
- 4.24** Mae refeniw ychwanegol o £0.9m wedi'i ddyrannu yn 2019-20 i gefnogi lleihau gwastraff bwyd. Mae'r defnydd effeithiol o adnoddau naturiol, gan gynnwys aildefnyddio ac ailgylchu, yn cyfrannu at lai o alw am ddeunyddiau wedi'u hechdynnu a'u medi ar draws y blaned. O ganlyniad, mae hyn yn lleihau effaith defnyddwyr Cymru ar yr amgylchedd byd-eang.
- 4.25** Gan gydnabod bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i wynebu pwysau, caiff refeniw o £0.8m a chyfalaf o £3m ei ddyrannu yn 2019-20. Mae'r tirlun naturiol yn rhan bwysig o ddiwylliant a threftadaeth y wlad, yn ogystal â bod yn bwysig i'r diwydiant twristiaeth, gan gefnogi twf economaidd yn ei dro.
- 4.26** Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cael refeniw o £41k yn 2019-20 a chyfalaf o £171k yn 2019-20 ac yn 2020-21 yn benodol i gefnogi plannu coed. Mae coed yn amsugno carbon deuocsid, sy'n gallu helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwella ansawdd aer.
- 4.27** Mae cymorth i wella neuaddau pentref a neuaddau lles glowyr wedi cael cyllid refeniw o £0.06m yn 2019-20 trwy weithgareddau Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo. Mae rhaglen grantiau'r Gymuned Lofaol yn cefnogi prosiectau sydd ag effaith gadarnhaol ar gyn gymunedau glofaol.

Pennod 5: Dyraniadau Cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

Trosolwg

- 5.1** Caiff y newidiadau a ddisgrifir ym mhennod tri eu hadlewyrchu yn y cynlluniau gwario diwygiedig a nodir yn y bennod hon, ynghyd â chynlluniau gwario'r Prif Grwpiau Gwariant ym mhennod chwech.
